

Cyngor Cymuned Llanelian (329)

Cofnodion cyfarfod Tachwedd 3 2020 a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo am 7yh.

Presennol: Ian Evans, Dafydd Griffiths, John Griffiths, Glenys Jones, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Thomas Jones, Arfon Morgan, Cyng. Richard Jones, Carli Evans Thau (Clerc)

Ymddiheuriadau: Elyn Hughes Hefina Williams, Helen Hughes

1 Croeso

Cadeirwyd y cyfarfod gan Ian Evans ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol. Nodwyd bod llythyr wedi ei dderbyn gan Helen Hughes yn ymddiswyddo fel aelod o'r cyngor. cytuno ysgrifennu'n swyddogol i ddiolch iddi am ei gwasanaeth dros nifer fawr o flynyddoedd ac i ddymuno'n dda iddi i'r dyfodol. Cadarnhawyd felly bod sedd wag ar y cyngor. Y clerch i wneud y trefniadau perthnasol gyda'r swyddfa etholaeth i hysbysebu'r sedd. CT

2 Datgan Diddordeb

Richard Jones – materion cynllunio

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod 6/10/2020. Cynnig Thomas Jones, eilio Glenys Jones, cefnogi'n unfrydol.

4 Materion yn Codi o'r Cofnodion

4.1 Aelodaeth Pwyllgorau a Chynrychiolaeth ar Bwyllgorau Allannol

Nododd y clerch yn sgil ymddiswyddiad Helen Hughes bod angen penodi aelod arall i bwyllgor y fynwent ac aelod i gynrychioli'r cyngor ar bwyllgor Neuadd y Pentref.

Wrth nodi bod nifer o aelodau'r cyngor hefyd yn ymddiriedolwyr y Neuadd, cytuno bod angen aelod nad oedd eisioes ynghlwm a'r elusen. Enwebwyd Gordon Hayes, cynnig Dafydd Griffiths, eilio Glenys Jones, cefnogwyd yn unfrydol, y clerch i gysylltu a chadeirydd yr ymddiriedolwyr. CT

Penodwyd Dafydd Griffiths yn aelod o bwyllgor y fynwent, cynnig Thomas Jones, eilio John Griffiths, cefnogwyd yn unfrydol.

Y clerch i ddiweddarau'r wybodaeth ar y wefan a' hysbysfwrdd. CT

4.2 Materion Prifffyrdd – cafwyd ddiweddariad pellach gan Alun Roberts, cadarnhaodd y clerch ei bod wedi anfon yr ebost at yr aelodau er gwybodaeth. Cadarnhaodd hefyd bod Mr Bayley hefyd wedi cysylltu a CSYM ynglyn a phryderon diogelwch ffordd. Nodwyd nad oedd amserlen gan Alun Roberts pa bryd fyddai'r gwaith wedi ei gwblhau.

Cytuno cysylltu yn ol a'r swyddog gyda copi o'r ebost i Richard Jones. Nodwyd bod y gwaith i'r palmentydd wedi ei ariannu gan LLC ac felly bydd amserlen ar gyfer gwariant. Cytuno bod yn bwysig pwysu am ddyddiad am y fath gwaith neu bod peryg colli'r arian. CT

Roedd aelodau yn siomedig iawn nad oedd CSYM yn bwriadu gosod palmant heibio i'r ysgol oherwydd diffyg cyllid, teimlwyd bod y datblygiad yma yn bwysig er lles a diogelwch y plant.

Roedd yr aelodau yn siomedig nad oedd unrhyw beth cadarn yn ebost Alun Roberts onibai am newid llif traffig a parth 20mya a hynnu heb amserlen pendant. Cytuno cysylltu eto a parhau o roi pwysau a'r yr adran brifffyrdd i gwblhau'r gwaith. CT

4.3 Cais am Arian

Cafwyd lythyr o ddiolch gan Gylch Meithrin Penysarn yn dilyn cyfraniad tuag at offer celf.

4.4 Cystadleuaeth Calan Gaeaf

Nododd y clerch bod y gystadleuaeth wedi ei gynnal erbyn hyn a bod y gymuned wedi bod yn gefnogol o'r gystadleuaeth arddangosfa, a'r ysgol hefyd wedi cymryd rhan wrth annog y plant i ddylunio pwmpen. Bydd y canlyniadau yn cael eu rhannu ar dudalen facebook y pentref unwaith bydd cadarnhad gan y beirniaid. CT

5 Diweddariadau

5.1 Caeau Chwarae – Gobeithir bydd y goliau yn cael eu gosod ym Maes Llwyfo 16/11/2020 yn ddibynnol ar y cyfnod clo yn Lloegr a gallu y cwmni i barhau i weithio.

Bydd y gwaith yn Lon Tyddyn Waen yn cael i gwblhau cyn gynted a phosib. Mae'r cwmni yn

parhau i weithio.

- 5.2 Llithrfa** – Mae 13 o'r goriadau wedi eu dychwelyd erbyn y dyddiad cau. Bydd y pwyllgor yn cwrdd yn ystod Tachwedd er mwyn trafod y ffordd ymlaen ar gyfer 2021. CT
- 5.3 Mynwent** – cadarnhawyd bod peth gwaith wedi ei gwblhau yn y fynwent erbyn hyn. Nodwyd bod Richard Edwards wedi cysylltu yn gofyn a fyddai gwrthwynebiad iddo losgi peth o'r deunydd yn y fynwent tray n gweithio yno. Ni fu gwrthwynebiad ar yr amod ei fod yn ystyried cyfeiriad y gwynt ac amseru yn briodol. Y clerc i gadarnhau. CT
- 5.4 Cyllid a Pholisi** – nodi bod angen i'r pwyllgor gyfarfod i adolygu nifer o bolisiau gan gynnwys y rheoliadau sefydlog. Cytuno byddai'r pwyllgor yn ceisio cwrdd unwaith y mis er mwyn adolygu gwahanol ddogfennau, bydd rhai angen eu diweddarau tra bydd eraill yn iawn am flwyddyn arall. Cadarnhawyd bod pob aelod wedi derbyn ffeil yn cynnwys copiau o'r polisiau cyfredol. CT
- 5.5 Cronfa Ty Moel Isaf (1717-1985)** – cadarnhawyd bod y dogfen ddrafft o gofnodion y cyfarfod wedi ei gylchredeg i'r aelodau er gwybodaeth. Bydd y pwyllgor yn cwrdd cyn cyfarfod nesaf y cyngor. Nododd y clerc ei bod wedi diogelu coeden fyw i'w blannu ger mynediad y pentref am ddim, yr unig gost fydd ei gosod a'i diogelu. CT
- 5.6 Llwybrau** – Dim diweddariad.
- 5.7 Pwyllgorau Allannol** –
- 5.7.1** Llywodraethwyr Ysgol - bu i Glenys Jones gadarnhau bod y corff yn symud ymlaen i hysbysebu swydd pennaeth parhaol. Cadarnhawyd hefyd bydd blwyddyn 5 a 6 yn ymweld a'r gofeb ddydd Mercher 11/11/2020 i osod torch.
- 5.7.2** Pwyllgor Cynllunio – nododd Dafydd Griffiths bod y datblygiad wedi ei ganiatau (Ty'n Lon). Nid oedd wedi bod yn bosib iddo fynychu'r cyfarfod ond bod recordiad o'r cyfarfod wedi bod ar gael i'r cyhoedd ar y we. Nodwyd bod rhesymau am gael y rhandy wedi eu nodi, er nad oeddent wedi eu cynnwys yn y cais gwreiddiol. Cytuno byddai Dafydd Griffiths yn drafftio llythyr i'r clerc ei anfon i CSYM yn gofyn pam fod yr amodau gwreiddiol wedi eu addasu yn yr achos yma, a gofyn i'r adran gynllunio flaenoriaethu datblygu canllawiau cynllunio atodol yn benodol ar gyfer rhandai. Cynnig Dafydd Griffiths, eilio Thomas Jones pawb yn gefnogol. DG
CT
- 5.7.3** Partneriaeth Cyngorau Gogledd Mon – i'w drafod ymhellach yn eitem 10.
- 5.7.4** Cyllid Llywodraeth Leol – bu i Dafydd Griffiths fynychu sesiwn gwybodaeth a bydd yn anfon y nodiadau i'r aelodau er gwybodaeth. Bu tynnu sylw'r aelodau i gyhoeddiad penodol sef 'Local Government Guidance – a practitioner's guide'. Nododd dylai'r pwyllgor cyllid fod yn gyfarwydd a'r ddogfen – y clerc i anfon dolen i'r aelodau. Y clerc hefyd i anfon cyfrinair Un Llais Cymru i'r aelodau er mwyn i bawb gael mynediad i'r dogfennau a chanllawiau perthnasol. CT
- Trafodwyd cyllideb y cyngor a sut gellid ystyried effaith codi'r priseb ar dai yn yr ardal. gellir edrych ar y cynydd fel swm o arian yn hytrach na canran. Dylai CSYM allu cadarnhau faint o dai sydd ym mhob band treth yn y gymuned er mwyn hwyluso'r asesiad yma a chyfiawnhau unrhyw newid. Y clerc i wneud ymholiadau. CT
- 5.7.5** Cynghrair Twrcelyn – cafwyd grynoded o'r cyfarfod diwethaf gan Dafydd Griffiths. Trafodwyd tri pwnc sef cynnal cyfarfodydd ar amser sydd yn fwy hwylus i aelodau allu mynychu (cynhelir cyfarfodydd am 4 o'r gloch ar hyn o bryd). Trafodwyd sefydlu 'Cynllun Tro Da', roedd gan yr ardal nifer o wirfoddolwyr ar ddechrau'r cyfnod clo, gobeithir fod digon o unigolion yn parhau i fod ar gael i wirfoddoli. Nodwyd bod yr angen am y gwasanaeth am gynyddu dros misoedd y gaeaf a'i bod yn bwysig bod y gwasanaeth yn cael ei hyrwyddo yn y llefydd cywir er budd rheini sydd ei angen. Y trydydd pwnc dan sylw oedd twristiaeth gwyrdd ble cafwyd amlinelliad o syniad Cyngor Amlwch i ddatblygu llwybr yn dilyn meinciau yn y gymuned, pob un gyda 'Cod QR' fydd a dolen i wybodaeth am bethau diddorol yn yr ardal a/neu hanes y safle. Nododd Dafydd Griffiths byddai posib gwneud rhywbeth tebyg gyda'r prosiect cysgodfannau bws a'r meinciau cymunedol yn ardal Llanelian.
- Diolchwyd i Dafydd Griffiths am fynychu'r cyfarfodydd ar ran y cyngor ac am adrodd yn ol i'r aelodau.
- 6 Cynllunio**
- 6.1 Ceisiadau** – dim ceisiadau i'w ystyried
- 6.2 Penderfyniadau** – cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn:

- Tyn Lon (HHP/2020/168) – caniatad
- Gadfa Newydd (FPL/2020/80) – caniatad
- 2 Bryn Dulas (HHP/2020/204) – caniatad

6.3 Gorfodaeth – cafwyd wybod gan CSYM bod yr adran gynllunio yn dal i ddisgwyl ymateb i rybydd torri rheolau cynllunio ar gyfer pyllau dwr yn Nulas, a bod disgwyl sylwadau gan adrannau eraill o fewn y cyngor ynglyn a Sialets Llys Dulas. Gobeithio cael diweddariad pellach mis nesaf. CT

7 Materion Ariannol

7.1 Taliadau

Cymeradwywyd y taliadau canlynol –
 £691.55 cyflog gan gynnwys tal rheoli Bosra
 £100.00 Cylch Meithrin Penysarn
 £100.00 Ysgol Gynradd Penysarn
 £375.00 Ad-daliadau llithrfa

7.2 Ceisiadau am Arian

Dim

8 Iechyd a Diogelwch

Dim

9 Gohebiaeth

Cadarnhaodd y clerc bod y rhan helaeth wedi ei anfon ymlaen drwy ebost wrth eu derbyn. Bu tynnu sylw'r aelodau at y canlynol:

9.1 Ymgynghoriad canllawiau cynllunio – cytuno byddai'r aelodau yn cael golwg arall ar y ddogfen a chylchlythyru sylwadau. Mae angen ymateb erbyn 27/11/2020.

9.2 Cyfarfod Rhanddeiliaid Horizon (Wylfa Newydd) – cytuno yn unfrydol bydd John Griffiths a Dafydd Griffiths yn cynrychioli'r cyngor yn y cyfarfodydd rwan bod y grwp wedi'i ail sefydlu. DG JG

9.3 Virginia Crosbie AS – cadarnhaodd y clerc bod copi o'r llythyr wedi ei ebostio i'r aelodau er gwybodaeth. Cytuno cydnabod y llythyr. CT

9.4 Ms Lorna Herbert – trafodwyd ei llythyr a chytuno ymateb yn amlinellu'r cynlluniau sydd ar y gweill ar gyfer y fynwent a chynnig cyfle i gyfrannu tuag at y prosiect a/neu gosod mainc coffa yn y fynwent. CT

Bu i Richard Jones adael y cyfarfod.

9.5 Cafwyd wybod gan adran eiddo CSYM eu bod mewn trafodaethau a'r adran dai i weld os oedd posib i'r cyngor cymuned brynnu'r tir tu ol i'r tai pensynwyr yn y pentref

10 Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon

Cafwyd grynoded gan Dafydd Griffiths yn dilyn cyfarfod diwethaf y Bartneriaeth. Nododd cefndir y corff, y rhesymau dros ei ffurfio a'r pwysigrwydd o weithio ar y cyd gyda cynghorau eraill i roi mwy o bwysau ar gwmnïau megis Horizon a datblygiad Wylfa Newydd.

Bu'r Bartneriaeth yn weithgar iawn wrth drin a thrafod Wylfa Newydd yn enwedig wrth i'r broses gynllunio a datblygu'r DCO roi cyfleon i gyflwyno pryderon a diogelu'r dêl gorau i'r cymunedau oedd yn cael eu cynrychioli. Nid oedd hyn yn hawdd fel corff a byddai wedi bod llawer mwy annodd i gynghorau unigol. Teimlai Dafydd Griffiths bod y cynghorau wedi cydweithio'n dda ac wedi llwyddo i wneud llawer mwy na fyddai wedi bod posib fel cymunedau unigol.

Ers y gwaith yn ymwneud a Wylfa Newydd, mae'r Bartneriaeth wedi cwrdd ar y cyd gyda CSYM a LLC i drafod ffatri Rehau yn cau a dyfodol y safle. Roedd y Bartneriaeth am weld CSYM/LLC yn prynnu'r safle a datblygu unedau diwydiannol yn Amlwch. Bu i'r Bartneriaeth roi pwysau ar CSYM i brynnu'r safle os nad oedd diddordeb gan gwmnïau preifat.

Cafwyd wybod bod cynrychiolwyr un cyngor wedi nodi eu bwriad i dynnu allan o'r bartneriaeth ond nad oedd rheswm penodol. Bu Dafydd Griffiths gadarnhau byddai ef a chadeirydd y corff yn ymuno a chyfarfod nesaf y cyngor hwnw i drafod ymhellach.

Bu i Dafydd Griffiths amlinellu pam ei bod yn bwysig i gynghorau gydweithio, a sut oedd LLC yn annog cynghorau tref a cymuned i weithio fel clwstwr gan nodi bod y Bartneriaeth yn gwneud hyn

yn barod.

Cafwyd wybod gan Dafydd Griffiths bydd cyfarfod blynyddol y Bartneriaeth i'w gynnal yn fuan a bydd cyfle i fabwysiadu cydamsoddiad yn swyddogol. Cadarnhaodd bod y fersiwn diweddaraf o'r ddogfen yn galluogi i'r corff barhau i gydweithio er lles y cymunedau sydd wedi eu cynrychioli ac i gefnogi eu gilydd, nid oedd yn rhagweld unrhyw resymau i'w wrthod.

Bu pleidlais i gytuno bod Cyngor Cymuned Llanelian yn parhau yn aelod o'r Bartneriaeth ac yn derbyn y cyfansoddiad. Cyning Dafydd Griffiths, eilio Thomas Jones, dim gwrthwynebiad, Arfon Morgan yn atal ei bleidlais. DG

11 Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

Cadarnhawyd bod yr eitem yma wedi ei ohurio ers y cyfarfod diwethaf, cadarnhawyd bod yr aelodau wedi derbyn y ddolen ar gyfer y ddogfen. Nodwyd mai'r prif newid i gynghorau cymuned oedd y byddai taliadau i aelodau yn awtomatig a byddai angen i unigolion gadarnhau gyda'r clerch yn ysgifennedig os nad oeddent am dderbyn y taliad. Byddai ariannu'r taliad o'r dreth. Nododd y clerch byddai unrhyw daliadau yn drethadwy. Cytuno ymateb i'r ymgynghoriad i ddiolch am gael mynegi barn a chadarnhau nad oedd gan yr aelodau sylw pellach. CT

12 Parcio ger y fynwent

Bu crybwyll y mater yma yn y cyfarfod diwethaf. Mae cerbydau yn cael eu parcio tu allan i giat y fynwent gan ymwelwyr i dai gwyliau cyfagos a pobl sydd yn cerdded llwybr yr arfordir. Nodwyd mai ym misoedd yr haf oedd y broblem ar ei waethaf. Cytuno cysylltu a CSYM i ofyn am arwydd 'parcio ar gyfer y fynwent yn unig', os nad yw CSYM yn gallu gosod arwydd o'r fath, gofyn am ganiatad i osod arwydd ein hunain. CT

13 Unrhyw fater ar gyfer agenda'r cyfarfod nesaf

13.1 Sul y Cofio – cadarnhawyd bod torch wedi ei archebu ar gyfer y cyngor. ni fydd gwasanaeth ger y gofeb oherwydd rheoliadau covid ond bydd cyfle i ddangos parch a chofio fel yr arfer.

13.2 Nodwyd cwyn gan Thomas Jones am olwg mewn cae ar Llanelian Road, Porth Amlwch. Nododd bod pob math o bethau yn cael eu cadw yno a bod cwynion wedi bod yn y gorffennol hefyd am gyflwr y safle.

14 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Bydd y cyfarfod cyffredinol nesaf Rhagfyr 1, 2020 am 7 o'r gloch
Bydd cyfarfod pwyllgor Cronfa Ty Moel Isaf am 6 o'r gloch yr un noson.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.45

**Arwyddwyd
Ian Evans
Cadeirydd**

CET11/2020